



Proffesiynol
Professional



Ymatebol
Responsive



Creadigol
Creative



Ysbrydoledig
Inspiring



Cydweithredol
Collaborative

DEON - CYFADRAN BUSNES A'R DIWYDIANNAU CREADIGOL

Cyflog:

Uwch Gyflog: £110,382 y flwyddyn

Oriau a Hyd y Contract:

Penodiad Llawnamser, Parhaol

Yn Adrodd i:

Dirprwy Is-ganghellor

Ym Mhrifysgol De Cymru (PDC), rydym yn gosod ymgysylltu, cydweithio, a gweithio mewn partneriaeth wrth wraidd popeth a wnawn, er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau oll i'n myfyrwyr a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Rydym yn falch bod ein graddedigion yn nodedig ac yn gyflogadwy iawn, maent yn asiantau newid cymdeithasol sy'n mynd ymlaen i wneud gwahaniaeth gwirioneddol yn y byd.

Mae'r Brifysgol yn mynd trwy gyfnod cyffrous o newid a thrawsnewid, fel rhan o gyflawni ein Strategaeth 2030 a gyrru ymlaen ein huchelgeisiau o ddarparu canlyniadau rhagorol i staff a myfyrwyr. Bydd hyn yn gofyn am y gallu i feddwl a mynd i'r afael â'r newidiadau o fewn y gyfadran gyda phersbectif newydd ffres, tra'n cynnal hunan-wydnwch a thîm ehangach y gyfadran a myfyrwyr. Mae ffocws ar sicrhau arbedion effeithlonrwydd ar yr un pryd â chyflawni rhagoriaeth yn hanfodol.

Mae'r Gyfadran Busnes a'r Diwydiannau Creadigol yn rhagori mewn ymchwil ac arloesi, ymgysylltu masnachol, a dysgu trwy drochi, ac mae'n falch o fod yn gartref i rai o'r cyfleusterau gorau yn y DU. Mae'r cyfleusterau hyn, i enwi dim ond rhai, yn cynnwys Ystafell Fasnachu Ariannol, Stiwdio Greadigol a Labordai, yn ogystal ag Uned Ymchwil Diwydiannau Creadigol ar gyfer Cerddoriaeth, Perfformio a'r Cyfryngau, sydd i gyd yn rhoi amlygiad i fyfyrwyr i leoliadau ymarferol sy'n efelychu senarios byd go iawn, a datblygu gwybodaeth trwy dechnegau dysgu trwy brofiad, gan baratoi myfyrwyr ar gyfer gweithle'r dyfodol. Mae'r Gyfadran wedi cymryd camau breision ym meysydd ymchwil ac arloesi, a bydd yn parhau i adeiladu ar gyflawniadau llwyddiannus REF21 (3*/4*), dros y blynyddoedd nesaf wrth baratoi ar gyfer REF29. Mae'r portffolio wedi'i adeiladu ar bartneriaethau cryf ac yn gwneud cyfraniad sylweddol ar draws y meysydd canlynol: Cyfrifeg a Chyllid, Rheoli Busnes, Diwylliant ac Animeiddio, Ffasiwn, Marchnata a Ffotograffiaeth, Ffilm a Theledu, Gemau a Dylunio, Busnes Byd-eang, y Gyfraith, Cerddoriaeth a Drama, Rheoli Gweithrediadau, a Datblygiad Proffesiynol, felly mae gweledigaeth strategol i ddatblygu'r meysydd hyn ymhellach yn allweddol.

Fel Deon y Gyfadran, byddwch yn gyfrifol am gyfeiriad strategol a datblygiad un ar ddeg o feysydd pwnc academiaidd sy'n cwmpasu'r holl ddiwydiannau busnes a chreadigol, yn ogystal â'r meysydd traws-gyfadran allweddol sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau myfyrwyr, partneriaethau a datblygu busnes ac ymchwil, o ganlyniad i'ch gallu i ddangos tystiolaeth o ymchwil credadwy neu arweinyddiaeth broffesiynol o fewn un neu fwy o'r disgyblaethau. Bydd angen ffocws arbennig i yrru'r safonau ansawdd uchaf ar draws y portffolio;

hyrwyddo ymchwil barhaus a chroesawu gweithgarwch masnachol, gan adeiladu enw da, perfformiad REF a chyfran o'r farchnad. Mae hyn yn gofyn am weledigaeth greadigol, persbectif strategol a chraffter masnachol i gyflawni strategaeth uchelgeisiol y Brifysgol ar gyfer 2030, yn ogystal â'r statws i arwain a hyrwyddo'r gyfadrannau a chyfrannu at arweinyddiaeth y Brifysgol.

Bydd eich rôl fel Deon yn cael ei chefnogi ymhellach gan dîm sefydledig sy'n cynnwys Dirprwy Ddeon, Prif Swyddog Gweithredu'r Gyfadrannau, Cyfarwyddwr Academaidd y Gyfadrannau, Deoniaid Cyswllt, Penaethiaid Pwnc, a Phartneriaid Busnes AD, Marchnata a Chyllid.

Gan adrodd i'r Dirprwy Is-ganghellor, byddwch yn gweithio ar y cyd â'r ddwy gyfadrannau arall ar gyfer arloesi rhyngddisgyblaethol, a chyda'r Dirprwy Is-ganghellorion, yn ogystal â Gwasanaethau Proffesiynol ar gyfer ansawdd gwasanaeth rhagorol ac effeithlonrwydd. Bydd gennych agwedd gynhwysol ac uchelgeisiol at arweinyddiaeth sy'n adlewyrchu gwerthoedd craidd y Brifysgol, sef 'Proffesiynol, Ymatebol, Creadigol, Ysbrydoledig a Chydweithredol'. Rydym yn chwilio am arweinydd rhagorol sy'n ymgorffori'r gwerthoedd hyn ac a all weithio gyda'r staff dawnus ac ymroddedig ar draws y sefydliad i adeiladu ar lwyddiannau ac arwain y Gyfadrannau i gyflawni Strategaeth 2030.

Oherwydd natur y rôl, mae angen hyblygrwydd llawn, fodd bynnag, byddwch wedi'ch lleoli'n bennaf ar Gampws Caerdydd, gyda phresenoldeb ar ein campysau eraill ym Mhontypridd a Chasnewydd yn ôl yr angen. Bydd y rôl hon yn eich galluogi i lywio cyfeiriad y Gyfadrannau yn y dyfodol a gwella sgiliau'r myfyrwyr trwy greu gweithlu'r dyfodol.

Darganfyddwch fanteision gweithio i PDC: <https://tinyurl.com/GweithioYnPDC>

Mae PDC wedi ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed. Disgwylir i bawb sy'n gweithio yn y Brifysgol rannu'r ymrwymiad hwn.

Rydym wedi ymrwymo i gyflogi gweithlu amrywiol a chreu amgylchedd cynhwysol lle gall cydweithwyr fod yn nhw eu hunain a phob person yn cael ei drin ag urddas, tegwch a pharch. Rydym yn annog ceisiadau o gefndiroedd a chymunedau amrywiol, yn enwedig o ran oedran, anabledd, hunaniaeth rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, hil a chrefydd a/neu gred. Rydym yn meincnodi ein llwyddiant trwy achrediaidau cydraddoldeb gydag Athena Swan, Siarter Cydraddoldeb Hil, Stonewall a Hyderus o ran Anabledd.

Os ydych chi'n ddysgwyr Cymraeg neu'n siarad Cymraeg, byddwn ni'n falch iawn o dderbyn eich cais. Yn PDC, bydd gennych fynediad i gyrsiau Cymraeg i'ch galluogi i ddatblygu eich sgiliau Cymraeg ymhellach, er mwyn darparu gwasanaeth dwyieithog i'n myfyrwyr, cydweithwyr a'r cyhoedd.

Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd ceisiadau Cymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r rhai a wneir yn Saesneg.

SWYDD-DDISGRIFIAD A MANYLEB Y PERSON

Pwrpas y Swydd

Darparu cyfeiriad strategol, gallu rheoli newid, arweinyddiaeth mewn cynllunio academiaidd a throsolwg gweinyddol ar gyfer y Gyfadran. Y nod yw cyrraedd y safonau ansawdd uchaf mewn diwydiannau busnes a chreadigol, ymchwil ac arloesi, gweithgaredd masnachol a phartneriaethau, er mwyn adeiladu a chynnal enw da a chyfran o'r farchnad. Dylai'r Deon osod y Gyfadran fel esiampl o Strategaeth 2030 y Brifysgol, ar flaen y gad o ran metrigau perfformiad y Brifysgol.

Cyfrifoldebau Allweddol

Gyda throsolwg o un ar ddeg o feysydd pwnc: Cyfrifeg a Chyllid, Rheoli Busnes, Diwylliant ac Animeiddio, Ffasiwn, Marchnata a Ffotograffiaeth, Ffilm a Theledu, Gemau a Dylunio, Busnes Byd-eang, y Gyfraith, Cerddoriaeth a Drama, Rheoli Gweithrediadau, a Datblygiad Proffesiynol:

1. Darparu arweinyddiaeth a rheolaeth strategol sy'n canolbwyntio ar bobl i'r Gyfadran, gan roi ymdeimlad o hyder a sefydlogrwydd yn ystod cyfnod o newid a her aruthrol, yn ystod gweithredu Strategaeth 2030 PDC.
2. Dealltwriaeth o'r seiliau ariannol angenrheidiol ar gyfer rheoli Cyfadran o fewn cyfnod o newid a thrawsnewid sylweddol, gan gynnwys cyllidebu, llywodraethu Cyfadran, a dehongli data a mewnwelediadau i wneud penderfyniadau busnes gwybodus.
3. Mae meithrin diwylliant sy'n seiliedig ar werthoedd yn meithrin rhagoriaeth mewn ymgysylltu â chydweithwyr, cyfathrebu, a gwaith tîm gan sicrhau tegwch, urddas, cynhwysiant a llesiant, drwyddo draw.
4. Sefydlu diwylliant o berfformiad uchel, i ysgogi gwelliannau ym mhrofiad a deilliannau myfyrwyr.
5. Sicrhau bod perfformiad cydweithwyr yn cael ei reoli'n briodol, a bod dyraniad llwyth gwaith teg yn ei le.
6. Ysgogi a chefnogi rhagoriaeth ac uniondeb mewn dysgu ac addysgu, ymchwil a chyfnewid gwybodaeth ac, yn unol â gwerthoedd y brifysgol, meithrin hinsawdd sy'n annog y Gyfadran, staff a myfyrwyr i arloesi yn y gweithgareddau hyn.
7. Gan weithio gyda'ch timau, cychwyn a goruchwyllo gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio i wella ansawdd addysgu o fewn y Gyfadran a sicrhau bod dulliau addysgu o'r radd flaenaf, bod dysgu'n gyfoethog yn ddigidol, yn canolbwyntio ar bartneriaeth ac yn cyd-fynd â nodau Strategaeth 2030 PDC.
8. Meithrin a chefnogi gweithgareddau ymchwil o safon, mewn perthynas ag adeiladu ar gyfer adroddiadau blynyddol nesaf y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) ac Addysg Uwch, Busnes a'r Gymuned (HEBCI). Cynnwys gweithgarwch cysylltiedig aelodau'r Gyfadran a chysoni ymdrechion â strategaeth ac uchelgeisiau ymchwil y Brifysgol, ag uchelgeisiau ymchwil rhyngddisgyblaethol ar draws y Cyfadrannau; gyda'r nod o adeiladu ansawdd, graddfa a gwelededd o amgylch cryfderau ymchwil allweddol.
9. Adeiladu'n rhagweithiol ar berthnasoedd allanol cyfredol gyda chysylltiadau diwydiant a phartneriaid hanfodol yn y gymuned, yn ogystal â datblygu rhwydweithiau newydd i drosoli gwybodaeth a sgiliau gan helpu'r gyfadran i ddatblygu sgiliau myfyrwyr. Felly, creu gweithlu'r dyfodol.
10. Cymryd rhan weithredol fel aelod o Uwch Dîm Arwain y Brifysgol, gan gefnogi'r Weithrediaeth yn y gwaith o drawsnewid a chyflawni strategol y Brifysgol.

Manyleb y Person

Er mwyn gallu ymgymryd â'r rôl hon yn effeithiol bydd angen y priodoleddau a'r sgiliau allweddol a amlinellir isod. Wrth gwblhau eich cais sicrhewch eich bod yn dangos sut yr ydych yn bodloni'r meini prawf hyn.

1*	Profiad sylweddol o ddal rôl arwain, yn benodol o fewn Cyfadrn Busnes neu Ddiwydiant Creadigol, ynghyd â phrofiad eang o weithio'n effeithiol gydag Uwch Dimau Arwain ehangach o fewn Addysg Uwch.
2*	Profiad o arwain mentrau newid a thrawsnewid.
3*	Cymwysterau academiaidd a phroffesiynol addas o fewn meysydd pwnc busnes a'r diwydiant creadigol, a chofrestriad corff proffesiynol priodol.
4*	Profiad y gellir ei ddangos o arwain newid diwylliannol sylweddol i sicrhau perfformiad gwell.
5*	Dull arwain colegaid sy'n adeiladu timau effeithiol ac yn cynyddu talent i'r eithaf.
6*	Dull sy'n canolbwyntio ar allbwn a'r gallu i ddefnyddio data a metrigau i osod targedau, ysgogi perfformiad a gwreiddio cyfleoedd.
7*	Meddyliwr strategol, gyda gallu dadansoddi effeithiol i hwyluso meddwl cysyniadol, arloesedd a chreadigedd.
8*	Tystiolaeth o lwyddiant mewn arloesi mewn darpariaeth academiaidd megis dysgu ac addysgu, ymchwil a/neu gyfnwied gwybodaeth a fydd yn ennyn parch yn fewnol ac yn allanol, yn ddelfrydol ar lefel Athro yn unol â meini prawf PDC.
9*	Sgiliau dylanwadu a thrafod lefel uchel a'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol ac i ymgysylltu'n gredadwy, yn fewnol ac yn allanol.
10*	Profiad o weld myfyrwyr (Israddedigion, Ôl-raddedigion a Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig) fel canolbwynt yr holl weithgareddau, gan wella profiad myfyrwyr yn barhaus a gwreiddio ethos o welliant parhaus cynaliadwy.
11	Mae'r gallu i siarad a/neu ysgrifennu Cymraeg yn ddymunol.

Iechyd a Diogelwch

Rhaid i chi a) ymgysgu i'r ymgyfarwyddo â, a chydymffurfio â, Polisiâu a Gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch y sefydliad sydd ar gael ar Connect (Mewnwyd); a b) bod yn gwbl gyfarwydd â'ch cyfrifoldebau iechyd a diogelwch a amlinellir yn nogfen Trefniadau Rheoli Iechyd a Diogelwch y Gyfadran/Adran a gweithredu yn unol â hynny.

Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd – Cynnig o gyfweliad

Mae Prifysgol De Cymu wedi ymrwymo i gyflogi gweithlu amrywiol a chreu amgylchedd cynhwysol lle gall staff fod yn nhw eu hunain a lle caiff pob person ei drin ag urddas, tegwch a pharch. Fel cyflogwr 'Hyderus o ran Anabledd', rydym yn gwarantu bod pob ymgeisydd anabl sy'n bodloni'r holl feini prawf allweddol ar gyfer y swydd wag y maent yn gwneud cais amdani yn cael cynnig cyfweliad. Nodir meini prawf allweddol gan * ym Manyleb y Person uchod.